**Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin SWWR-05-00(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Gwener, 14 Gorffennaf 2000

**Amser:** 10.00am hyd at 12.55pm

**Lleoliad:** Y Ganolfan Hamdden, Castell Newydd Emlyn, Sir Gaerfyrddin

**Yn bresennol: Aelodau**

Peter Black Gorllewin De Cymru

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

Andrew Davies Gorllewin Abertawe

Janet Davies Gorllewin De Cymru

Val Feld Dwyrain Abertawe

Christine Gwyther Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Edwina Hart Gyr

David Rhys Lloyd Gorllewin De Cymru

Gwenda Thomas Castell-nedd

Rhodri Glyn Thomas Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

**Cyflwynwyr:** Dr Mike Brooker Dr Cymru

Wendy Hamer-Cooke Dr Cymru

Marc Davies Dr Cymru

Richard Crawshaw Fforwm Economaidd De-

orllewin Cymru

Kefin Wakefield Cyngor Sir Benfro

**Presenoldeb** Peter Fullerton Swyddfa Cyllid Ewrop yng

Nghymru

Jane Westlake Clerc

Claire Morris Dirprwy Glerc

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Nick Bourne Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynog Dafis Canolbarth a Gorllewin Cymru

Richard Edwards Preseli Sir Benfro

Delyth Evans Canolbarth a Gorllewin Cymru

Brian Gibbons Aberafon

Helen Mary Jones Llanelli

Glyn Davies Canolbarth a Gorllewin Cymru

1.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r gofyniad, dan Orchymyn Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw ddiddordebau cyn cymryd rhan yn y trafodaethau. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

**Eitem 2 Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2000 i 2001**

2.1 Diolchodd Peter Black, y Cadeirydd presennol i'r aelodau am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd hefyd i'r Clerc a'r

Dirprwy Glerc am eu gwaith.

2.2 Diolchodd yr Aelodau i Peter Black am y ffordd yr oedd wedi cadeirio'r pwyllgor ac am sicrhau bod y cyfarfod yn hygyrch i'r cyhoedd. Enwebodd Val Feld Alun Cairns fel Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer

2000 i 2001 ac fe'i etholwyd yn ddiwrthwynebiad.

**Eitem 3 Rhaglen ar gyfer Cyfarfodydd yr Hydref**

**Papur SWWR-05-00(p.1)**

3.1 Cytunwyd ar y blaenraglen waith arfaethedig ar gyfer yr hydref. Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig fod y cyhoedd yn ymwybodol o'r sesiynau meicroffon agored ymhob cyfarfod. Cytunwyd y dylai'r sesiwn meicroffon agored ddilyn toriad yn y cyfarfod fel bod gan y cyhoedd amser i feddwl am gwestiynau. Mynegwyd pryder yngln ag addysg bellach yn y rhanbarth a chytunwyd y dylid cynnwys eitem ar hyn yn yr agenda, os yn bosibl. Byddai'r cyfarfodydd yn parhau i gychwyn am 10.00am.

**Eitem 4 Sesiwn Meicroffon Agored**

Cyflwyniad

4.1 Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau i'r Pwyllgor.

4.2 Cafwyd sylwadau gan Mr Fabian Koseda ar yr amser oedd yn cael ei dreulio ar hyn o bryd yn aros am apwyntiadau i gleifion mewnol ac allanol mewn ysbytai a gofynwyd a oedd unrhyw gynlluniau i arolygu strwythur rheoli'r NHS yng Nghymru a pham yr oedd gan ymgynghorwyr yr NHS yr hawl i ymgymryd â gwaith preifat.

Ymateb

4.2.1 Mynegodd Dai Lloyd ddiddordeb fel Meddyg Teulu.

4.2.2 Cafodd arian ychwanegol ei ddyrannu i gwrdd â blaenoriaethau allweddol yn yr NHS, ac roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn monitro'r sefyllfa i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario ar sicrhau triniaeth ac nid ar fiwrocratiaeth ddiangen. Roedd aelodau Plaid Cymru o'r farn y gellid diddymu un haen o reolwyr yr NHS.

4.2.3 Roedd lleihau amseroedd aros yn flaenoriaeth allweddol i'r Cynulliad.

4.2.4 Roedd angen gwahaniaethu'n fwy clir rhwng gwaith preifat a gwaith yr NHS yng nghontractau ymgynghorwyr.

4.2.5 Gallai'r ysgol feddygol israddedig arfaethedig yn Abertawe helpu i leddfu'r problemau gyda recriwtio meddygol, gan y dengys gwaith ymchwil fod meddygon yn fwy tebygol o weithio yn yr ardal lle cawsant eu hyfforddi.

4.2.6 Byddai'r Pwyllgor yn arolygu perfformiad Awdurdod Iechyd Dyfed Powys dros y deuddeg mis nesaf.

4.3 Gofynnodd David James, o Ganolfan Hamdden Castellnewydd Emlyn gwestiwn ar pa gamau

oedd y Cynulliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau iechyd gwael, segurdod a thewdra. Cyfeiriodd y cwestiwn at gynllun cyfeirio llwyddiannus oedd yn cael ei gynnal gyda'r Ganolfan Hamdden oedd yn annog atal y broblem yn hytrach na'i thrin a gofynwyd a fyddai unrhyw arian ar gael i ehangu cynlluniau o'r fath.

Ymateb

4.3.1 Cydnabuwyd pwysigrwydd cynlluniau fel yr un sy'n gweithredu yng Nghastellnewydd Emlyn, gan y byddai atal salwch yn lleihau'r straen ar yr NHS. Roedd datblygu gofal sylfaenol a hybu byw'n iach yn rhan allweddol o amcanion y Cynulliad ar iechyd.

4.4 Tynnodd aelod o'r cyhoedd sylw at hysbyseb diweddar ar gyfer Cadeirydd Ymddiriedolaeth NHS Canolbarth Cymru, oedd yn cynnig cyflog o £31,000 am dri diwrnod yr wythnos.

Ymateb

4.4.1 Nid oedd nifer o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnig cyflog ond teimlwyd bod cyflog yn bwysig yn y sector iechyd, er mwyn denu ymgeiswyr cymwys o galibr uchel. Ni ddylid cyfyngu'r maes y dewiswyd yr ymgeiswyr hyn ohono i'r ychydig rai a allai fforddio rhoi o'u hamser yn ddi-dâl.

4.4.2 Roedd y dyledion a gronnwyd gan rai awdurdodau lleol yn rhannol o ganlyniad i wendidau mewn systemau rheoli a'r Cadeiryddion oedd yn atebol yn y pen draw.

4.5 Gofynnwyd cwestiwn yngln â'r targedau a'r terfyn amser ar gyfer l

leihau rhestrau aros.

Ymateb

4.5.1 Roedd yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi pennu targed i awdurdodau iechyd ostwng rhestrau aros cyfredol o 83,000 i 65,000 erbyn mis Mawrth 2001, a chafodd adnoddau ychwanegol eu dyrannu i ddatblygu'r mater hwn. Byddai hyn yn her, gan i'r niferoedd godi yn ystod y 12 mis diwethaf.

4.5.2 Yr amseroedd aros oedd y mesur mwyaf arwyddocáol ac roedd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn canolbwyntio ar y mater hwn.

4.6 Gwnaethpwyd sylw, yn deillio o'r blaenraglen waith, ynglí n â methiant y Pwyllgor i gwrdd ag undebau'r Amaethwyr a gofynnwyd iddo beth oedd yn cael ei wneud i geisio datrys yr argyfwng ffermio presennol a'r effaith ar ardaloedd gwledig.

Ymateb

4.6.1 Byddai amser yn cael ei gynnwys mewn agenda yn y dyfodol i gyfarfod â hwy cyn gynted â phosibl.

4.6.2 Roedd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cynnal arolwg cynhwysfawr ar hyn o bryd o arallgyfeirio gwledig ac roedd gobaith y gallai'r Pwyllgor Rhanbarthol gyfrannu tuag at y broses hon drwy roi barn y bobl leol.

4.6.3 Roedd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig eisoes wedi derbyn rhai cynrychioladau ac roedd nifer o gynlluniau dyfeisgar eisoes ar waith. Roedd yn rhaid defnyddio arian Amcan Un yn effeithiol ar gyfer cymunedau gwledig.

4.7 Cafwyd sylw gan aelod o'r cyhoedd yngln â'r ffordd yr oedd y Cynulliad yn hysbysebu ei Bwyllgorau Rhanbarthol, yn enwedig y rhai hynny sy'n cael eu cynnal mewn ardaloedd gwledig, a'r anhawster o ymweld â gwefan y Cynulliad.

Ymateb

4.7.1 Roedd gan Bwyllgor Rhanbarth y De Orllewin restr bostio fawr ar gyfer y rhanbarth. Ar ben hyn, roedd pob aelod yn derbyn posteri i'w harddangos yn eu hetholaeth/rhanbarth ac roedd agendâu a phapurau ar gael ar safle'r Cynulliad ar y Rhyngrwyd. Teimlwyd bod y Pwyllgor wedi bod yn weddol llwyddiannus wrth ddenu aelodau o'r cyhoedd i gyfarfodydd ond croesawyd awgrymiadau i wella cyfathrebu.

4.7.2 Cytunwyd y byddai cynghorau cymunedol yn cael eu hychwanegu at y rhestr ddosbarthu. Awgrymwyd hefyd y gellid mabwysiadu system wahanol o bosibl wrth hysbysebu cyfarfodydd gwledig i gydnabod y gwahaniaeth rhwng ymweld ag ardaloedd gwledig a threfol.

4.7.3 Cydnabuwyd bod problemau gyda'r Wefan ac y byddai yn cael ei hail-gynllunio a'i gwella yn ystod yr haf.

**Eitem 5 Dr Cymru**

**Papur SWWR-05-00(p.2)**

5.1 Rhoddodd Dr Mike Brooker, Rheolwr Gyfarwyddwr Dr Cymru amlinelliad o raglen gwariant cyfalaf y cwmni ar gyfer 2000-2005. Roedd cyfanswm y gwaith yn £1.1 biliwn, gyda chynlluniau ar gyfer dros £200m o'r gwariant hwn yn Ardal Ranbarthol y De Orllewin. Atodir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad A.

Cwestiynau gan y Cyhoedd

5.2 Tynnodd Giles Evans, Cadeirydd, Cyngor Cymuned Y Ferwig, sylw at

Gynllun Rheoli drafft yr Aber a baratowyd gan Fenter Rheoli

Amgylchedd Aber Afon Teifi, a gofynnodd:

Pryd oedd yr arfer o bwmpio carthffosaeth heb ei drin i'r môr yng Ngwbert yn dod i ben ac ar ba ddyddiad y byddai'r gwaith yn dechrau;

Sut y bwriadwyd cysylltu Gwbert i'r brif bibell garthffosaeth;

A fyddai pibell i Aberteifi yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y parc carafannau yn Patch;

Pa gynlluniau oedd ar y gweill i gael arian i wella Aber Afon Teifi.

Ymateb

Rhoddodd Dr Brooker yr ymatebion canlynol:

Roedd arllwys carffosaeth i'r môr yng Ngwbert yn arllwysiad preifat ac roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am yr ansawdd. Byddai Mr Evans yn derbyn ateb ysgrifenedig ar y pwyntiau eraill.

Roedd trafodaethau ar y gweill gydag awdurdodau lleol i geisio sicrhau arian cyfatebol ar gyfer rhannau o'r rhaglen fuddsoddi a byddai ymgais i dynnu Cynllun Rheoli yr Aber i mewn i'r broses hon.

5.3 Tynnodd Mr Fabian Koseda sylw at y polisi o fabwysiadu cynnydd unffurf

yn nhaliadau sefydlog dr a charthffosaeth heb ystyried band treth

gyngor yr eiddo a gofynnodd a fyddai Dr Cymru yn ystyried gwerth eiddo yn y dyfodol.

Ymateb

6.6.1 Eglurodd Dr Brooker nad oedd bandiau'r dreth gyngor yn cael eu defnyddio ar gyfer taliadau dr heb ei fesur a pholisi'r cwmni oedd peidio â gorfodi pobl i ddefnyddio mesurydd dr. Cafodd y tariffiau eu hailfantoli mewn cysylltiad â gweithgaredd a chymeradwywyd pob tariff gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dr. Gan fod costau sefydlog a phrisiau yn faterion cymhleth, byddai Dr Brooker yn paratoi ymateb manwl, ysgrifenedig i Mr Koseda.

5.4 Gofynnwyd cwestiwn yngln ag ail-drefnu'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer Aber Afon Teifi i atal achosion anfoddhaol o arllwyso carthffosaeth.

Ymateb

6.6.1 Dywedodd Dr Brooker fod gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer 2004 ac y cytunwyd ar raglen gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, roedd yn bosibl ad-drefnu cynlluniau a rhoi mwy o flaenoriaeth i rai meysydd a byddai'n edrych ar y mater hwn.

6.6.1 Ychwanegodd Marc Davies yr argymhellwyd astudiaeth cyfarwyddeb cynefinoedd ar gyfer dalgylch Teifi ac roedd arian wedi ei ddyrannu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyfrannu tuag at yr astudiaeth hon ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

5.5 Cwynodd dyn busnes lleol am y tarfu diangen a'r incwm a gollwyd gan fusnesau bychain yn ystod gwaith newid pibau yng Nghastellnewydd Emlyn.

6.6.1 Dywedodd Dr Brooker, er bod rhwyfaint o darfu yn anorfod, roedd Dr Cymru yn chwilio'n gyson am ffyrdd o leihau hyn a chwblhau gwaith cyn gynted â phosibl. Roedd Dr Cymru yn derbyn y pryderon yngln â pherfformiad gwael gan gontractwyr; roedd hyn yn cael ei fonitro.

Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen cydnabod pwysigrwydd afonydd a'r arfordir i dwristiaeth a ffermio yng Nghymru ac roedd angen cynnal lefelau ansawdd i ddenu ymwelwyr i'r ardal. Roedd gan Dr Cymru swyddogaeth bwysig i'w chwarae mewn datblygu economaidd.
- Roedd y Cynulliad yn bryderus yngln ag effaith posibl cynigion prynu yn enwedig y cynnig gan Western Power i roi contract i redeg Dr Cymru i United Utilities. Roedd llythyr wedi ei ddrafftio ar ran Cadeiryddion y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth gan Stephen Byers yn gofyn am ymchwiliad llawn o effaith trosglwyddiad o'r fath.
- Nid oedd y cyhoedd wedi cael eglurhad priodol o'r posibiliadau o filiau llai trwy gael mesurydd dr.

5.6 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, gwnaeth Dr Brooker y pwyntiau canlynol:

- Ni ddisgwyliwyd i'r cais i brynu Hyder (rhiant gwmni Dr Cymru) effeithio ar unrhyw waith a nodwyd yn y rhaglen gwariant cyfalaf.
- Roedd gan Dr Cymru hanes o ddefnyddio asedau nad oeddent yn cael eu defnyddio bellach ar gyfer cadwraeth a bywyd gwyllt, ond lle roedd gwerth masnachol i adeilad roedd angen penderfynu'r ffordd orau o ddefnyddio hwn. Roeddent, fodd bynnag, yn barod i ffurfio barn gytbwys.
- Nodwyd y mater o adfer priffyrdd mewn modd annerbyniol yn dilyn gwaith ar ffyrdd. Ar adegau roedd ffyrdd yn cael eu hadfer dros dro ac ar adegau o'r fath roedd angen egluro i'r cyhoedd mai dim ond dros dro oedd y sefyllfa.
- Crewyd systemau i gydweithio gydag asiantaethau eraill a'r Adran Briffyrdd i osgoi cael asiantaethau gwahanol yn gweithio ar yr un ffordd o fewn cyfnod byr neu ar ôl rhoi wyneb newydd, ond roedd yn amlwg yn parhau i fod yn broblem a byddai gwelliannau pellach yn cael eu gwneud.
- Nodwyd y pryder a fynegwyd yngln â'r systemau carthffosaeth ar gyfer Dyffrynoedd Gwendraeth ac Aman a byddai Dr Brooker yn trafod y posibilrwydd o ddenu buddsoddiad i'r ardaloedd hyn.
- Roedd llawer o'r gwaith wedi ei wneud eisoes i geisio gwella'r arogl yn Nhre-gyr ac roedd mwy o waith yn cael ei wneud i drin llaid carthion.
- Cafodd y gost o osod mesuryddion dr ei dileu.

**Eitem 6 Cynlluniau Gweithredu Lleol a Rhanbarthol ar gyfer Amcan**

**Un yn Ne Orllewin Cymru**

**Papur SWWR-05-00(p.3)**

6.1 Rhoddodd Richard Crawshaw, Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru (SWEF) amlinelliad o brif gasgliadau gweithdy a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf i drafod cynlluniau gweithredu lleol a rhanbarthol ar gyfer Amcan Un yn Ne Orllewin Cymru.

6.2 Wrth ymateb, dywedodd Peter Fullerton, o'r Swyddfa Cyllid Ewropeaidd yng Nghymru (WEFO):

- fod WEFO wedi lansio eu dogfennau arweiniad drafft y diwrnod wedi'r gweithdy.
- Nid oedd dogfen y rhaglen unigol wedi ei chwblhau eto.
- Sefydlwyd partneriaethau lleol ym mhob un o'r pymtheg ardal leol.
- Roedd nodiadau arweiniad yn cael eu cynhyrchu.

6.3 Roedd yr aelodau a oedd wedi cwrdd â SWEF wedi datgan y pryderon a fynegwyd i'r Prif Ysgrifennydd, WEFO a swyddogion. Deilliodd nifer o'r pryderon hyn o ganlyniad i ymdriniaeth wael â rhaglenni ariannu strwythurol yn y gorffennol a chredwyd y gallai cyfarwyddyd canolog helpu i osgoi dyblygu diangen.

<u>Cwestiynau gan y Cyhoedd</u>

6.4 Tynnodd Mr Giles Evans, Cadeirydd Cyngor Cymuned Y Ferwig, sylw at yr anawsterau o gydlyniaeth traws-ffiniol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

6.6.1 Dywedodd Peter Fullerton fod rhestrau o bwyntiau cyswllt yn WEFO a'r partneriaethau lleol a rhanbarthol ar gael ar wefan y WEFO, ac roedd llyfryn i'w gyhoeddi'n fuan oedd yn cynnwys y wybodaeth hon. Roedd yn cydnabod cymhlethdodau'r system.

6.5 Gofynnodd aelod o'r cyhoedd a fyddai'n rhaid i'r awdurdod lleol roi arian i gyfateb ag arian Amcan Un ar lefel lleol.

6.5.1 Cafwyd yr ymateb canlynol gan Aelodau'r Cynulliad:

- Byddai'r Canghellor yn cyhoeddi canlyniadau yr Arolwg Gwariant Cynhwysfawr ar 18 Gorffennaf, pan fyddai'n dod yn hysbys a oedd Cymru i dderbyn mwy o arian na'r grant bloc i ryddhau arian Amcan Un Ewropeaidd;
- Nid oedd yn rhaid i'r holl arian cyfatebol ddod o'r sector cyhoeddus ac nid oedd yn rhaid iddo fod yn arian newydd;
- Roedd y Cynulliad Cenedlaethol ac asiantaethau eraill eisoes wedi nodi adnoddau y gellid eu defnyddio ar gyfer arian cyfatebol;
- caniateir ariannu cyfatebol o'r fath;

- disgwylwyd codi 20% o'r arian cyfatebol trwy'r sector preifat;
- gallai cyrff oedd yn noddi hwyluso arian cyfatebol, ni fyddai'n rhaid iddo ddod o'u cyllideb.

6.6 Rhoddodd aelod o'r gynulleidfa amlinelliad o gymhlethdod cyflwyno cynigion a'r angen i grwpiau lleol gael arweiniad i'w cynorthwyo yn y broses. Nododd hefyd ei fod yn debygol y byddai'r cynlluniau yn croesi ffiniau a blaenoriaethau. Roedd angen mwy o integreiddio i ddod â'r holl gynlluniau hyn at ei gilydd ac roedd angen i'r arweiniad gael ei ddosbarthu'n effeithiol i gymunedau lleol.

6.6.1 Dywedodd Peter Fullerton y byddai WEFO yn fodlon helpu partneriaethau lleol i gynhyrchu pro forma symlach ar gyfer cynigion cychwynnol. Byddai cynlluniau lleol yn cwmpasu yr holl flaenoriaethau sy'n cael eu cynnwys yn y ddogfen rhaglen unigol.

6.6.1 Dywedodd Kefin Wakefield, Cyngor Sir Benfro, eu bod yn sefydlu rhanbarthau o ardaloedd gweithredu i geisio cydlynu projectau ar lefel drefol a pherfeddwlad ac yn defnyddio'r Grwpiau Leader i ddatblygu ymagwedd gydlynol o'r gwaelod i fyny i'r gymuned leol. Roeddent hefyd yn cydnabod yr angen i weithio'n agos gyda Cheredigion a Sir Gaerfyrddin.

6.7 Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd cymunedau angen arweiniad clir ar broses Amcan Un, gyda phwynt cyswllt penodol ar gyfer ymholiadau. Dylid sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael trwy lyfrgelloedd lleol;
- Roedd angen llawer mwy o waith i osgoi dyblygu diangen wrth gynllunio;
- Ni ddylid disgwyl i bobl gyflwyno nifer o geisiadau ar gyfer projectau, roedd angen proses symlach;
- Ni ddylai anghenion ardaloedd gwledig De Orllewin Cymru gael eu hanwybyddu oherwydd anghenion ardaloedd trefol;
- Dylai targedau a chyfeirwyr ardaloedd gwledig fod yn wahanol i rai ardaloedd trefol;
- Rhaglen saith mlynedd oedd Amcan Un i roi hwb i'r economi;
- Roedd y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi pwysleisio'r angen am strategaeth economaidd i ymdrin â phroblemau hir dymor yn economi Cymru;
- Gallai grwpiau Leader roi cymorth wrth ymdrin â materion traws ffiniol a thraws flaenoriaethol gan fod ganddynt brofiad o ymdrin â materion traws ffiniol a helpu i lunio cynigion ar y cyd, petai angen.
- roedd angen i WEFO ymateb i'r negeseuon oedd yn dod o'r cymunedau lleol a hwyluso cyflenwad lleol.

**Eitem 7 Cofnodion y cyfarfod diwethaf (14 Mehefin 2000)**

**Papur SWWR-04-00(min)**

7.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod gwir o'r cyfarfod.

**Atodiad A**

**Cyflwyniad i Bwyllgor Rhanbarth y De Orllewin**

**Cyflwyniad i'r Cynllun Buddsoddi**

Penderfynu ar Isafswm Pris

- Targedau effeithlonrwydd ar gyfer costau gweithredu a buddsoddi – gostyngiad o 20% erbyn blwyddyn 5;
- gostyngiad o 10% mewn biliau o fis Ebrill 2000;
- Buddsoddiad cyfalaf o £1.1 biliwn dros 5 mlynedd (£1,000/cwsmer dros y pum mlynedd);
- rhaglen fuddsoddi ôl-breifateiddio yn parhau ar gyfartaledd o £230m y flwyddyn.

**Rhaglen Fuddsoddi Dr Cymru**

Cyfanswm o £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn y cyfnod o 5 mlynedd (£1,000 y cwsmer)

- £200m ar y brif bibell ddr a gwaith trin dr (2230 km);
- £300m ar orlifiadau storm (700 No.);
- £240m ar drin carthion (150 No.);
- £10m ar lefelau gwasanaeth;
- £90m ar fesuryddion newydd a mesuryddion dewis di-dâl;
- £260m ar gynnal a chadw.

Mae'r lefel hon o fuddsoddiad yn cymharu gyda'r swm o £13biliwn sy'n gyfanswm gwerth ailosod asedau DC.

**Buddsoddiad yn Ardal y De Orllewin (£1,400/cwsmer ar gyfartaledd dros 5 mlynedd)**

- 32% o raglen prif bibellau dr a gwaith trin dr Felindre (£70m);
- 35% o raglen gorlifiadau storm (£110m);
- 16% o raglen trin carthion (£40m)

**Buddsoddi ym Mhreseli Sir Benfro**

**Prif Bibellau Dr**

Solfa, Tyddewi 6.8 km

Abergwaun 6.9 km

Llanychaer, Trefdraeth 10.5 km

Llwyn Helyg, Camros 8.7 km Ebrill 00 – Rhag 01

Porthgain, Trefin 15.5 km

Llanycefn 5.0 km

I'w gytuno gyda'r Arolygiaeth Dr Yfed:

Awgrym o hyd 110 km Ionawr 2002 - Rhagfyr 2003

Awgrym o hyd 60 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

**Trin Carthion**

Trefdraeth (Sir Benfro) Mathri Gorllewin Waltwn Uzmaston

Eglwyswrw Casmorys Tiers Cross Pont Fadlen

Blaenffos Niwgwl Aberdaugleddau

**Gorlifiadau Storm**

Trefdraeth (Sir Benfro)(1) Aberteifi (4) Unigol (1) Unigol (Sir Benfro) (1)

**Buddsoddiad yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro**

**Prif Bibellau Dr**

Llandisilio, Penffordd 15.9 km

Llandyfái, Stackpole 19.3 km

Caerfyrddin, Treioan 9.4 km Eb 00 – Rhag 01

Llangain, Llannewydd 10.3 km

I'w gytuno gyda'r Arolygiaeth Dr Yfed

Awgrym o hyd 10 km Ionawr 2002 – Rhagfyr 2003

Awgrym o hyd 9 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

**Trin Carthion**

Parc-y-Splotts Freshwater East Llandyfái

Sanclêr Hundleton Doc Penfro

Angle Gorllewin Cilgeti

**Gorlifiadau Storm**

Sir Benfro (1)

**Buddsoddiad yng Ngorllewin Caerfyrddin a Dinefwr**

**Prif Bibellau Dr**

Llanfynydd, Ffairfach 6.8 km Eb 00 – Rhag 01

I'w gytuno gyda'r Arolygiaeth Dr Yfed

Awgrym o hyd 65 km Ionawr 2002 – Rhagfyr 2003

Awgrym o hyd 65 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

**Trin Carthion**

Derwen-fawr Felingwm Llansawel Blaenau Glan-y-fferi Pontiets

Bryngwyn Gelli-aur Nantgaredig Carmel Llanbedr Pont Steffan

Llanddarog Cynghordy Llanymddyfri Talyllychau Carwe Llangyndeyrn

**Gorlifiadau Storm**

Dyffryn Gwendraeth (12) Dyffryn Aman (34) Llandysul (1)

Llanymddyfri (1) Unigol (1)

**Buddsoddiad yn Llanelli**

**Prif Bibellau Dr**

Awgrym o hyd 49 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

**Trin Carthion**

Cydweli Llanelli Newydd Trimsaran

Cwmgwili Pembre Hendy

Llanedi Pontyberem Llangennech

**Gorlifiadau Storm**

Llanelli (20) Cwm Gwendraeth (27)

**Buddsoddiad yn Nhre-gyr**

**Prif Bibellau Dr**

I'w gytuno gyda'r Arolygiaeth Dr Yfed

Awgrym o hyd 20 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

Gwaith Trin Dr Felindre erbyn Gorffennaf 2001 (£17m)

**Trin Carthion**

Garnswllt Penclawdd Reynoldston Llannant

Crofty Rhosili Tre-gyr Llanmadog

**Gorlifiadau Storm**

Gogledd Gyr (6) De Gyr (13) Tre-gyr (9) Dyffryn Aman (1)

**Buddsoddiad yng Ngorllewin Abertawe**

**Prif Bibellau Dr**

Prif Bibell Priffordd Townhill 2 km Eb 00 – Rhag 01

I'w gytuno gyda'r Arolygiaeth Dr Yfed

Awgrym o hyd 7 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

**Trin Carthion**

Gwaith newydd wedi'i gwblhau ym 1999

**Gorlifiadau Storm**

Y Clun (4) Tre-gyr (8)

**Buddsoddiad yng Ngorllewin Abertawe**

**Prif Bibellau Dr**

Prif bibell Priffordd Crai 10 km Ebr 00 – Rhag 01

I'w gytuno gyda'r Arolygiaeth Dr Yfed

Awgrym o hyd 4 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

**Trin Carthion**

Gwaith newydd ym 1999

**Gorlifiadau Storm**

Tawe (3) Nantyfendrod (7) Tre-gyr (2)

Unigol (2)

**Buddsoddiad yng Nghastell-nedd**

**Prif Bibellau Dr**

Y Creunant, Blaendulais 43.8 km

Prif Bibell Priffordd Crai 17.0 km Ebr – Rhag 01

I'w gytuno gyda'r Arolygiaeth Dr Yfed

Awgrym o hyd 101 km Ionawr 2002 – Rhagfyr 2003

Awgrym o hyd 19 km Ionawr 2004 – Mawrth 2005

**Trin Carthion**

Resolfen Trebannws Ystradgynlais

**Gorlifiadau Storm**

Aman (5) Trebannws (6) Ystradgynlais (2) Afan/Baglan (33)

Unigol (3)

**Buddsoddiad yn Aberafon**

**Prif Bibellau Dr**

Dim rhaglen o gynlluniau yn AMP3 ond rhaglen ar gyfer AMP4 yn ardal Sgiwen.

**Trin Carthion**

Gwaith Afan wedi ei gwblhau yng Ngwanwyn 2000.

**Gorlifiadau Storm**

Afan/Baglan (53)